Adeilad y Goron/Crown Buildings
Parc Cathays, Caerdydd/Cathays
Park, Cardiff CF10 3NQ

Ein Cyf / Our Ref: DNS/ CAS-01907-D7Q6Z1
Dyddiad / Date: 07/04/2026

Ffôn / tel: 0300 123 1590 Ebost / email:
PEDW.infrastructure@gov.wales

Turley

Cyngor Sir Powys / Powys County Council

Ymgyngoreion Arbenigol / Ymgyngoreion Cymunedol / Partïon â Buddiant

Specialist Consultees / Community Consultees / Interested Parties

(gan E-Bost / via E-Mail)

***English text is on page 04***

Annwyl Syr / Fadam

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ('Deddf 1990')**

**Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) ('y Rheoliadau DAC')**
**Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 (fel y'i diwygiwyd) ('Gorchymyn Gweithdrefn DNS')**

**Cais gan: Nant Mithil Energy Park Limited**

**Safle: Tua 9 cilometr i'r dwyrain o Landrindod**

Mae'r Arolygwyr a benodwyd, H W Jones BA (Anrhydedd) BTP MRTPI a P Davies BSc (Anrhydedd) MA MRTPI, wedi gofyn i mi gysylltu â chi ynghylch yr archwiliad o'r Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) hwn.

Mae'r ohebiaeth hon yn hysbysiad swyddogol o faterion pwysig yn ymwneud â'r archwiliad hwn. Dylech ddarllen y wybodaeth ganlynol yn ei chyfanrwydd. Os oes unrhyw beth yn aneglur, cysylltwch â ni. Dylai'r llythyr hwn gael ei drin fel:

**Hysbysiad o dan Adran 62L (5) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) o estyniad i'r cyfnod atal penderfyniad dros dro presennol.**

Yn unol â'r Canllawiau cyhoeddedig ar y broses DNS, mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) o'r farn ei bod yn briodol ymestyn y cyfnod

atal gwneud penderfyniad ar y cais dros dro er mwyn caniatáu mwy o amser i gyflwyno gwybodaeth ychwanegol, fel yr eglurir isod.

**Yr wyf, drwy hyn, yn ymestyn cyfnod atal dros dro gwneud penderfyniad ar gyfer y cais hwn gan gyfnod o 12 wythnos ychwanegol h.y. bydd y cyfnod penderfynu'n ailgychwyn ar 29ain Mehefin 2026.**

Mewn llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2026, cadarnheais atal y cyfnod penderfynu ar gyfer y cais hwn am gyfnod o 6 wythnos, hyd at 7 Ebrill 2026. Roedd hyn er mwyn caniatáu amser i'r ymgeisydd ymateb i gais am wybodaeth ychwanegol a ofynnwyd amdano gan yr Arolygwyr. Mewn llythyr dyddiedig 31 Mawrth 2026, cadarnhaodd yr ymgeisydd gynigion i gyflwyno Adroddiad Gwybodaeth Bellach ('GB'), a fydd yn ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r Arolygwyr ac i'r prif sylwadau a wnaed gan Ymgyngoreion Arbenigol a phartïon eraill â buddiant. Mae'r ymgeisydd wedi gofyn am amser ychwanegol i gyflwyno'r wybodaeth hon ac mae'n anelu at ei chyflwyno erbyn 1 Mai 2026.

Ar ôl ystyried ymateb yr ymgeisydd, mae'r Arolygwyr yn fodlon bod ymestyn y cyfnod ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol yn briodol. Fodd bynnag, er cydnabod bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran cyflwyno Datganiad o Dir Cyffredin gyda Cadw, maent yn nodi nad oes ond ychydig o esboniad a manylion ynghylch cwmpas y Wybodaeth Bellach i'w chyflwyno a'r gwaith ychwanegol sydd ei angen.

Mae'r ymgeisydd yn nodi bod ei amserlen amcangyfrifedig o oddeutu 4 wythnos ar gyfer cyflwyno'r GB yn ddibynnol ar argaeledd yr Ymgyngoreion Arbenigol, ac yn cydnabod y gall eu capasiti fod yn gyfyngedig dros gyfnod y Pasg. O dan yr amgylchiadau, mae'r Arolygwyr o'r farn bod angen amser ychwanegol er mwyn sicrhau mwy o sicrwydd o ran yr amserlen ac er mwyn darparu ymateb cadarn a chynhwysfawr i'r materion a godwyd yn ein llythyr dyddiedig 2 Mawrth 2026. Yn unol â hynny, dylid cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol fan bellaf erbyn **15 Mai 2026**.

Ar ôl derbyn y wybodaeth ddisgwyliedig, bydd PCAC yn cynnal cyfnod ffurfiol o gyhoeddusrwydd ac ymgynghori; disgwylir iddo ar hyn o bryd gael ei gynnal rhwng **22 Mai 2026 a 26 Mehefin 2026**.

Mae ymestyn y cyfnod atal penderfynu yn golygu bydd angen diwygio'r dyddiadau dros dro ar gyfer y gwrandawiadau. Fodd bynnag, bydd y trefniadau diwygiedig ar gyfer y sesiynau gwrandawiad yn cael eu cadarnhau yn nes at yr amser.

Bydd y llythyr hwn ar gael i'r cyhoedd ar-lein ar y Porth Gwaith Achos.

Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau.

Yn gywir

Hannah Roberts

Rheolwr Gwaith Achos

*** English is on the next page ***

Dear Sir / Madam

**Town and Country Planning Act 1990 (as amended) ('the 1990 Act')**
**The Developments of National Significance (Wales) Regulations 2016 (as amended) ('the DNS Regulations')**
**The Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016 (as amended) ('the DNS Procedure Order')**

**Application by: Nant Mithil Energy Park Limited**

**Site: Approximately 9km East of Llandrindod Wells**

The appointed Inspectors, H W Jones BA(Hons) BTP MRTPI and P Davies BSc (Hons) MA MRTPI, have asked me to contact you regarding this Development of National Significance (DNS) examination.

This communication constitutes official notification of important matters related to this examination. Please read the following information in its entirety. If anything is unclear, please contact us. This letter should be treated as:

**Notice under Section 62L(5) of the 1990 Act of an extension to the existing suspension of the determination period.**

In line with the published guidance on the DNS process, PEDW considers it appropriate to extend the period of suspension of the determination of the application to allow more time for the submission of additional information as explained below.

**I hereby extend the suspension of the determination period for this application by a period of 12 additional weeks, i.e. the determination period will resume on 29th June 2026.**

In a letter dated 2 March 2026 I confirmed the suspension of the determination period for this application by a period of 6 weeks, until 7 April 2026. This was to allow the applicant time to respond to a request for additional information sought by the Inspectors. In a letter dated 31 March 2026, the applicant confirmed proposals to submit a Further Information ('FI') Report which will directly respond to the Inspectors' questions and key representations made by Specialist Consultees and other interested parties. The applicant has requested additional time to submit this information and is targeting submission by 1 May 2026.

Having considered the applicant's response, the Inspectors are satisfied that extending the period for the submission of the additional information is justified. However, whilst acknowledging some progress with the submission of a Statement of Common Ground with Cadw, they note that there is limited explanation or detail of

the scope of the further information to be provided and the additional work that is required.

The applicant explains that their estimated timescale of approximately 4 weeks for submitting the FI is subject to the availability of Specialist Consultees and acknowledge that their capacity may be limited over the Easter period. In the circumstances, the Inspectors consider that additional time is necessary to ensure increased certainty to the timetable and a robust response to the matters raised in our letter of 2 March 2026 is provided. Therefore, the additional information should be submitted no later than **15 May 2026**.

On receipt of the awaited information a formal publicity and consultation period will be undertaken by PEDW which is presently anticipated to take place between **22 May 2026 and 26 June 2026**.

The extension of the suspension period means that the provisional dates for the hearings will also need to be amended. However, we will confirm the revised arrangements for the hearing sessions closer to the time.

This letter will be made publicly available online on the Case Work Portal.

Please contact us if you have any queries.

Yours faithfully

Hannah Roberts

Casework Manager